



Therapi lleferydd ac iaith™  
yn trawsnewid bywydau



## Cefnogi goroeswyr strôc

**M**ae therapi lleferydd ac iaith yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o adsefydlu ac ail-alluogi goroeswyr strôc trwy asesu eu hanghenion a darparu strategaethau addas i gefnogi eu hanghenion llefaru, iaith, cyfathrebu a llyncu.

### Problem lyncu Alan

Pan aeth Alan yn benysgafn, yn methu cerdded mewn llinell syth ac wedi colli'r gallu i lyncu, aeth i'r ysbyty ble dangosodd diagnosis ei fod wedi cael strôc ysgafn. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach ac yntau'n dal yn methu llyncu, roedd angen iddo gael tiwb endosgop trwy'r croen i'r ystumog er mwyn gallu derbyn bwyd, hylif a meddyginiaeth. Mae Alan yn disgrifio'i brofiad fel un 'enbyd a rhwystredig'. Gyda'i wraig ers bron 50 mlynedd newydd farw ac yntau'n dal mewn galar, roedd hyn yn ei wneud yn isel iawn ei ysbryd.

Yn fuan wedyn cafodd Alan gyfarfod gyda'i therapydd lleferydd ac iaith, Andrew. Gyda'i gilydd bu'r ddau'n gweithio ar amrywiaeth o ymarferion dyddiol i adennill ei allu i lyncu. Dechreuodd Alan ennill tir yn gyflym. Erbyn hyn mae yn ôl ar fwyd solet yn gobeithio cael tynnu'i diwb bwydo yn fuan.

Mae Alan yn priodoli ei gynnydd nid yn unig ar yr ymarferion ond hefyd ar frwdfrydedd a chefnogaeth Andrew. Mae'n dweud: "Nes i hyn ddigwydd i chi, dydych chi ddim yn sylweddoli cynifer o bobl sy'n elwa ar therapi lleferydd ac iaith. Heb gymorth Andrew, rwy'n meddwl y buaswn i'n dal i fethu llyncu. I Andrew mae'r diolch fy mod i'n dod yn ôl i normal yn araf."



### Maint y problem

- ▶ Mae tua **152,000** strôc yn digwydd yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn<sup>1</sup> - mwy nag un bob pum munud.
- ▶ Mae tua **1.1 MILIWN** o oroeswyr strôc yn byw yn y Deyrnas Unedig.<sup>2</sup>
- ▶ Bydd tua thraean o bobl yn cael rhyw lefel o anawsterau cyfathrebu (o'r enw affasia neu dysffasia) yn dilyn strôc.<sup>3</sup>
- ▶ Bydd o leiaf **40%** o oroeswyr strôc yn profi rhywfaint o anhawster llyncu ar y dechrau. Os na fydd hyn yn cael ei drin gall anawsterau llyncu arwain at niwmonia allsugno, cynnydd mewn derbyniadau i'r ysbyty ac arosiadau hirach mewn ysbytai.



▶ I gael mwy o wybodaeth ewch i: [www.rcslt.org](http://www.rcslt.org)

# Materion mynediad

Er gwaethaf pwysigrwydd amlwg therapi lleferydd a llais i ail-alluogi goroeswyr strôc, mae llawer yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i wasanaethau lleferydd ac iaith:

- Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi darganfod fod pobl yn hanner yr ardaloedd wedi aros dwy wythnos ar gyfartaledd cyn iddyn nhw dderbyn therapi lleferydd ac iaith cymunedol.<sup>9</sup>
- Darganfu Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith fod llai na phumed ran o 500 o oroeswyr strôc wedi derbyn therapi lleferydd ac iaith o fewn y mis cyntaf ar ôl eu strôc.<sup>10</sup>



## Sut gallwch chi helpu

Er mwyn cefnogi goroeswyr strôc, mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn galw ar feddygon teulu, comisiynwyr, dalwyr cyllidebau a darparwyr gofal i:

- Sicrhau fod pawb sy'n goroesi strôc yn cael eu hatgyfeirio'n syth at therapi lleferydd ac iaith ar gyfer asesiad llwnc o fewn y 24 awr cyntaf ar ol eu strôc.
- Sicrhau fod pob goroesydd strôc yn cael eu hatgyfeirio'n syth at therapydd lleferydd ac iaith i'w galluogi i gael mynediad i ddull addas o gyfathrebu yn y dyddiau cyntaf un ar ôl eu strôc.
- Cydnabod pan fydd goroeswyr strôc yn gadael ysbyty fod rhaid cael trawsnewid di-dor i'r gymuned gyda chymorth digonol i sicrhau fod therapi yn cael ei gynnal.
- Sicrhau fod pob tîm strôc cymunedol yn cynnwys o leiaf un therapydd lleferydd ac iaith.

➤ I gael mwy o wybodaeth ewch i:  
[www.rcslt.org](http://www.rcslt.org)

## Sut gall gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith helpu

- Mae therapi lleferydd ac iaith yn ymyriad effeithiol ar gyfer cefnogi pobl gydag affasia yn dilyn strôc.<sup>5</sup>
- Mae therapi lleferydd ac iaith hefyd yn cynnig manteision economaidd. Mae ymchwil i fudd economaidd ar fuddsoddiad yn amcangyfrif fod:
  - Y budd blynyddol o ddarparu therapi lleferydd ac iaith i'r **£52,757** o gleifion affasia wedi strôc yn **£60M**.<sup>6</sup>
  - Mae pob **£1** a fuddsoddir mewn therapi lleferydd ac iaith dwysedd isel i oedolion gyda dysffagia wedi strôc yn sicrhau **£2.30** o arbedion costau gofal iechyd trwy osgoi achosion o heintiau ar y frest.<sup>7</sup>
  - Mae pob **£1** a fuddsoddir mewn gwell therapi lleferydd ac iaith i gleifion gydag affasia yn sicrhau **£1.30** oherwydd y fantais ariannol yn ei sgil.



## CYFEIRNODAU AC ADNODDAU

- 1 Townsend N, et al (2012). Coronary heart disease statistics 2012 edition. Sefydliad Prydeinig y Galon: Llundain. t57.
- 2 Townsend N, et al (2012). Coronary heart disease statistics 2012 edition. Sefydliad Prydeinig y Galon: Llundain. t58.
- 3 Y Gymdeithas Stroc (2012). Speech and Language Therapy after Stroke. Y Gymdeithas Stroc: Llundain.
- 4 Ibid.
- 5 Kelly H, Brady MC, Enderby P. *Speech and language therapy for aphasia following stroke*. Cochrane Database of Systematic Reviews 2010, Rhifyn 5. Art. No.: CD000425. DOI: 10.1002/14651858.CD000425.pub2
- 6 Marsh K, et al (2010) *An economic evaluation of speech and language therapy*, Matrix Evidence, t75. [www.rcslt.org/giving\\_voice/matrix\\_report](http://www.rcslt.org/giving_voice/matrix_report)
- 7 Ibid.
- 8 Ibid.
- 9 Comisiwn Ansawdd Gofal (2011) Supporting Life After Stroke. Comisiwn Ansawdd Gofal: Llundain.
- 10 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2008). *Speaking out for stroke survivors*. [www.rcslt.org/about/campaigns/England\\_stroke\\_briefing](http://www.rcslt.org/about/campaigns/England_stroke_briefing)